Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y Cyfarfod	22 / 02 / 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataiddn
Teitl	Rôl Cefnogwr Amrywiaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynnig i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Is-bennawd (dileu os oes angen)

2.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i greu rôl Cefnogwr Amrywiaeth a'r disgrifiad o'r rôl a nodir yn Atodiad 1.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo creu rôl Cefnogwr Amrywiaeth yn unol â'r disgrifiad o'r rôl a nodir yn Atodiad 1.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Tachwedd 2012 penderfynodd y Cyngor y dylid bod â phedwar aelod gefnogwr. Sef:

- Cefnogwr Pobl Hŷn

- Cefnogwr Atal Digartrefedd
- Cefnogwr Gofalwyr
- Cefnogwr Anableddau Dysgu

4.2. Ar 7 Rhagfyr 2021 cytunodd y Cyngor i greu rôl Cefnogwr Pobl Ifanc ac y gallai unrhyw aelod o'r Cyngor gymryd y rôl hon.

4.3. Hefyd ar 7 Rhagfyr 2021 ystyriodd y Cyngor gynnig yn galw am greu Cefnogwr Amrywiaeth. Penderfynodd y Cyngor gyflwyno adroddiad ar rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

4.4. Mae disgrifiad rôl wedi'i ddrafftio ac mae ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mae'r disgrifiad rôl wedi'i ddrafftio i ddilyn yr un ffurf â'r disgrifiadau rôl a fabwysiadwyd ar gyfer y cefnogwyr presennol.

4.5. Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2022, gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried cynnwys y disgrifiad rôl drafft hwn, a ddylai'r Aelod Arweiniol perthnasol neu aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet gyflawni'r rôl, ac argymell i'r Cyngor a ddylai mabwysiadu'r disgrifiad rôl fel y'i drafftiwyd neu fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor.

4.6. Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i argymell i'r Cyngor y dylai fod rôl Cefnogwr Amrywiaeth ac y gallai gael ei chyflawni gan aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet. Cytunodd y Pwyllgor ar y disgrifiad rôl a nodir yn Atodiad 1.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i ymgysylltu, herio a, lle bo modd, cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- Fe allai costau teithio achlysurol godi os bydd aelod gefnogwr yn mynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a glustnodir ar gyfer teithio gan aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Testun yma Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu. Cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn uniongyrchol gan y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Testun yma Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd unrhyw gost fach ychwanegol yn cael ei chynnwys yn y cyllidebau presennol a glustnodwyd ar gyfer teithio gan aelodau. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth ariannol ehangach.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd dryswch neu ddyblygu'n digwydd rhwng rôl yr Aelod Gefnogwr a rôl yr Aelod Arweiniol perthnasol os nad y Cefnogwr yw'r Aelod Arweiniol hefyd. Bydd yn bosibl lliniaru hyn drwy fod â disgrifiad rôl clir a pherthynas weithio dda rhwng yr Aelod Arweiniol a'r Cefnogwr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972